

# CAPEL SALEM, DOLGELLAU

## TAFLEN MIS MAI 2021

Rhifyn 227


Annwyl ffrindiau,

Fy mraint yw cael eich cyfarch unwaith eto drwy gyfrwng y daflen fisol. Er nad yw hi wedi bod yn bosib gweld y rhan helaethaf ohonoch wyneb yn wyneb yn ddiweddar oherwydd cyfyngiadau Cofid-19, mae wedi bod yn braf cael cwmni cyfeillion o Salem, Tabernacl, Ebeneser a thu hwnt yn y gwasanaethau a gynhaliwyd drwy gyfrwng y dechnoleg zoom. Yn ystod mis Ebrill cafwyd gwasanaethau o dan ofal y Parch. Aneurin Owen (lle ymunodd ei frawd â ni o Dde Affrica!), y Bnr Eurwyn P Jones a thrwy drefniant â'r Tabernacl, y Parch Patrick Slattery. Pan drefnir gan Salem, ein hysgrifennydd gweithgar Dwryd Williams fydd yng ngofal y trefniadau sydd, fel y medrwch ddychmygu, yn drylwyr bob amser. Mawr yw ein dyled a'n diolch iddo. Mae'r pregethwyr ar gyfer mis Mai wedi dweud mai yn rhithiol maent am wasanaethu, ac rydym yn parchu hynny felly bydd y gwasanaethau rhithiol yn parhau am ychydig. Fe'ch hysbyswn eto am sefyllfa mis Mehefin ond fe welach o'r rhestr oedfaon mai ein bwriad yw cyfarfod yn y capel bore'r Sul olaf ym mis Mai.

A'r gwanwyn bellach yn ei anterth, a'r tywydd wedi bod yn ffafriol ers wythnosau, dwi am rannu gyda chi de-lyneg o waith Eifion Wyn i gyfarch mis Mai

*Gwyn ei ddyfod, fis y mêl, Gyda'i firi, gyda'i flodau,*

*Gyda dydd fy ngeni innau, Gwyn fy myd bob tro y dël.*



Ganed Eliseus Williams, sef Eifion Wyn (gweler ei lun ar y chwith) ar Fai 2il, 1867 ym Mhorthmadog, ac mae'r ysgol gynradd yn y dref wedi'i henwi ar ei ôl. Fe'i hadnabyddir hefyd fel emynydd ac mae sawl enghraifft o'i waith wedi'u cynnwys yng Nghaneuon Ffydd. Emyn o'i waith sydd ddim yng Nghaneuon Ffydd, ond a welwyd yn yr Atodiad, yw "Am wlad mor dawel ac mor dlos, ein Tad, moliannwn di". Geiriau addas iawn ar gyfer ardal lle buom yn cerdded yn ddiweddar. A hithau'n noswaith braf, aethom am dro yn ardal Llyn Tecwyn Isaf. Roedd y cyfarwyddiadau yn y llyfr bach teithiau cerdded yn dweud y dylem barcio wrth eglwys hynafol Llandecwyn. Felly, dyma ddilyn ffordd gul, serth a throellog i fyny a pharcio ar lain o dir gyferbyn â'r eglwys. Dod allan o'r car a chael golygfa odidog draw dros aber y Ddwryd a Phen Llŷn - roedd yn llecyn tawel, braf. Gallwn ddychmygu yr hen ffyddloniaid yn gwneud eu ffordd i addoli yn yr hen eglwys fach ddiarffordd o sawl cyfeiriad ac ym mhob tywydd. Er mor braf oedd hi yno ar noson o wanwyn, dwi'n siŵr ei bod yn arw iawn yn y gwynt a'r glaw. Oherwydd y pandemig roedd yr adeilad ar glo ond mae eglwys wedi sefyll ar y safle yma ers y 6ed ganrif. Mae'r eglwys bresennol yn dyddio o'r 19eg ganrif. Rydym wedi syllu arni o ardd Gareth ym Mhenrhyndeudraeth sawl tro a dyfalu sut oedd mynd ati, a dyma gyrraedd mwyaf annisgwyl. Bydd rhaid ymweld eto pan fydd posib cael mynediad i werth-fawrogi'r adeilad.



Ar Fai'r 1af bydd Elora, merch Sandra a Wil Elphick, yn priodi Geraint Howell Jones yng Nghaerdydd, lle maent wedi ymgartrefu. Dymuniad Elora oedd cael priodi yn Salem y llynedd, ond nid oedd hynny'n bosib felly fe ail-drefnwyd. Ond gyda Cofid-19 yn parhau i'w gwneud yn amhosib i drefnu unrhyw achlysur gyda sicrwydd, bu'n rhaid newid y trefniadau. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r pâr ifanc.

Deallwn fod ein cyfaill Aelwyn Gomer Roberts wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd. Rydym yn meddwl amdano ac yn dymuno adferiad buan iddo. Anfonwn ein cofion anwylaf a'n dymuniadau gorau i Mrs Gwenfair Jenkins sydd ddim yn mwynhau'r iechyd gorau y dyddiau hyn.

Er bod peth llacio ar y cyfyngiadau, nid yw eto'n bosib i ni ymweld â'n cyd-aelodau sydd yn gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal. Anfonwn ein cofion atoch i gyd ac edrychwn ymlaen at yr amser pan fydd dod i'ch gweld yn bosib. Cadwch yn ddiogel, bawb, a gobeithiwn y bydd modd eich gweld mewn gwasanaeth yn Salem yn fuan.

Yn gywir,

*John Cadwaladr* (Ar ran y swyddogion)

## OEDFAON MIS MAI

Dydd Sul, Mai 2il - 10.00 y bore - Oedfa Gymun (Zoom) gyda'r Parchedig Gwenda Richards, Caernarfon

Dydd Sul, Mai 9fed - **5.00 yr hwyr** - Oedfa Zoom gyda'r Parchedig Robert Parry, Lerpwl

Dydd Sul, Mai 16eg- 10.00 y bore - Oedfa (Zoom) gyda'r Parchedig Edwin Hughes, Llanbryn-mair

Dydd Sul, Mai 23ain - Dim oedfa

Dydd Sul, Mai 30ain - 10.00 y bore - Oedfa **YN Y CAPEL** dan ofal y swyddogion gyda phregeth rithiol ar y sgrin gan y Parchedig Ddr Elwyn Richards, Caernarfon

### DWY WRAIG O'R WLAD - Atgofion Ap Hefin (Henry Lloyd)

Hwyrach y cofiwch chi i mi gyfeirio at hanes Ap Hefin, hen ewythr Terry Lloyd yn nhaflen mis Mawrth. Cyfeiriais at daflenni a fenthycais gan Terry dan y teitl "Dwy Wraig o'r Wlad - Atgofion Ab Hefin (Henry Lloyd)". Catherine Owen a Jennet Lloyd oedd eu henwau ond cyfeiriai Ap Hefin atynt fel Nain Dre a Nain Ffatri. (Nain Ffatri oherwydd ar un adeg arferai fyw mewn tŷ ffatri, sef "gweithfa wlad tu allan i'r dref). Deuai Nain Dre yn wreiddiol o Gorris a Nain Ffatri o Harlech. Ymddengys fod y ddwy yn bur dlawd tua diwedd eu bywydau oherwydd bu'n rhaid iddynt "*fynd ar ofyn y plwyf am ddeunaw ceiniog yr wythnos i helpu i estyn eu hoes*". (*Nid oedd Deddf Tâl Henoed Lloyd George wedi dod i rym bryd hynny*). Fel llawer o dlodion yr oes honno chafodd yr un o'r ddwy fawr o addysg ffurfiol. Dywed Ap Hefin mai gyda chroes yr arwyddodd y ddwy eu tystysgrifau priodasol. Doedd ganddynt fawr o Saesneg mwy nag "yes" a "no" a "Yes indeed" a thueddiad y ddwy oedd i gymysgu'r ddwy iaith wrth ymateb i bobl a siaradai Saesneg â hwy. Serch eu diffygion o ran addysg roedd y ddwy "*ymhell o fod yn annoeth*" gan fod ganddynt fwy na'u siâr o synnwyr cyffredin. Mae atgofion Ap Hefin o'r ddwy yn reit ffraeth - dyma i chi enghraifft. "*Tebygrwydd arall cydrhyngddynt oedd y medrai'r ddwy bobi a golchi, cyweirio gwllâu, gwneud bwyd, ac yn enwedig weu hosanau; ond ni phroffesai'r un ohonynt fod mor alluog â'r ferch a ymffrostiai ei bod wedi "godro'r gwartheg, pobi a golchi, corddi'r llaeth, gwneud y menyng, a chyweirio'r gwllâu - cyn i neb godi!"*"



ANN DAFYDD,

Dywed Ap Hefin fod "*Nain Ffatri yn fympwyol o lanwaith... un o'r gorchwylion cyntaf fore Llun fyddai glanhau esgidiau goreu (esgidiau Sul, "esgidiau parch") a'u gosod i sefyll ochr-yn-ochr, fel rhes o filwyr, gan ddechrau o'r pâr mwyaf hyd y lleiaf"..... ond golchi a glanhau oedd pleser Nain Ffatri; golchi llestri, golchi'r llawr, golchi dillad, golchi popeth - golchi Taid, os na chiliai o'r ffordd*".

Ymddengys fod y ddwy nain mewn "*gwth o oedran cyn gweled trênn; ac nid oedd gan Nain Ffatri ormod o olwg a hwynnw. Pan gyda ni ar y cae gwair ym Mhant yr Onnen, os clywsid swm y trênn yn y pellder yn chwibanu wrth agoshau i'r dref, hawdd fyddai ganddi ddweud "Dyna'r hen draen, sydd yn mynd ag arian pobol"*".

Byd cyfyng iawn oedd byd y ddwy. Pe clywent rhywun yn dweud fod yna filiynau o fydoedd heblaw ein byd bach ni, byddent yn mynegi barn megis "*Gormod o ddysg yn dy yrru di yn unfyd*".

Yn ôl Ap Hefin gallai'r ddwy ddarllen Cymraeg ond "*dim ond un llyfr oedd gwerth i wario eu hamser prin arno, a hwynnw oedd Y Llyfr - Y Beibl ... Phe dywedai rhywun fod yr Hen Lyfr wedi ei argraffu a'i rwymo yn y nefoedd, prin y buasant yn ameu hynny.....Darllenent y Beibl yn gyson. Sbectol oedd "bookmark" y ddwy, a'r Beibl oedd y cás sbectol.*" Yn ôl yr hanes roedd Nain Dre yn "*nodedig o dduwio!*" a deuai "*hen wragedd Penucha'r Dref*" at nain, a'u gweill yn eu dwylo... *i gael seiad grefyddol.... Mae englyn Daniel Owen fel pe wedi ei wneud i nain Dre*" - gweler isod (I'w barhau)



*Fe welwch uchod ddau lun o gyfnod y ddwy nain. Yn y llun cyntaf fe welwch Ann Dafydd, Pandyrodyn, yn 95 oed, yn brysur yn gwau ac erioed wedi gwisgo sbectols, yn ôl yr hanes.*

*Yn yr ail lun gweler bachgen yn eistedd ar y wal ger yr Afon Arran.*

***Mor Gymreig yw'r hen wreigan - hapus, dew,  
Mewn pais stwff a bedgwan;  
Llon ei hysbryd sieryd Siân  
Werth Iesu wrth weu hosan"***